Photo: Camelia Iordache & Salvati Copiii /Save the Children

Save the Children
Achub y Plant

ACHUB Y PLANT CYMRU

CYMORTH I BLANT A THEULUOEDD O WCRÁIN

I blant yn Wcráin, mae hwn yn **gyfnod eithriadol o frawychus ac ansicr.** Maent wedi byw trwy fombardiadau, gan guddio mewn llochesi a chael eu gorfodi i adael eu cartrefi. Mae o leiaf 6.2 million o bobl o Wcráin wedi'u dadleoli'n fewnol, gyda tua 8 miliwn arall yn ffoaduriaid mewn gwledydd cyfagos a gwledydd eraill. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, mae mwy na 3.5 miliwn o blant yn Wcráin yn byw gyda lefelau difrifol i drychinebus o anghenion ledled y wlad. Mae llawer o blant wedi gorfod gadael eu hanwyliaid, eu ffrindiau, a phopeth sydd ganddynt, ar ôl.

Ar ôl **teithiau hir a blinedig,** mae teuluoedd yn ymgartrefu mewn gwledydd ar draws Ewrop a thu hwnt. Eisoes mae degau o filoedd o ffoaduriaid o Wcráin wedi cyrraedd y DU. Gyda nifer y fisas sydd yn cael eu cymeradwyo'n cynyddu, a pharhad y rhyfel, disgwylir y bydd llawer mwy o bobl yn gorfod **ffoi o'u cartrefi a chwilio am ddiogelwch**. Amcangyfrifir y bydd o leiaf hanner y rhain yn blant.

Mae Achub y Plant yn gweithio ar draws pedair gwlad y DU, gan weithio gyda chymunedau i leihau nifer y plant sydd yn tyfu i fyny mewn tlodi ac yn cynorthwyo eu datblygiad a'u haddysg gynnar. Yng Nghymru mae gennym **rwydweithiau cadarn o bartneriaid lleol** yr ydym wedi bod yn gweithio gyda nhw i helpu plant a'u teuluoedd o Wcráin y mae eu bywydau wedi cael eu troi ben i waered**. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gael y cymorth a'r cyfarpar hanfodol** sydd eu hangen ar blant i gael adferiad a dechrau ailadeiladu eu bywydau**.**

Mae *Oleksandra a *Myroslava, chwiroydd, yn byw yn Oblast Lviv. Daeth y ddwy i Gaerdydd am y tro cyntaf gyda'u merched ifanc ddechrau'r haf diwethaf.

Gan weithio ochr yn ochr â'n partner yng Nghyngor Caerdydd, llwyddodd Achub y Plant Cymru i roi grant blynyddoedd cynnar iddynt i brynu llyfrau a theganau i'r plant a thalebau i brynu bwyd a dillad.

*Enwau wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth

savethechildren.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)

Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd yma. Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

DARPARU GRANTIAU ARIANNOL I GANOLFANNAU

Save the Children
Achub y Plant

Mae Canolfannau Croeso wedi cael eu sefydlu yng Nghymru i ddarparu ar gyfer teuluoedd sydd yn cyrraedd o Wcráin a'u cefnogi nes bod ganddynt gartref arall i fynd iddo. Er bod y **Canolfannau Croeso** hyn wedi cael rhoddion hael o ddillad, pramiau ac eitemau eraill, mae'n anodd rhagweld yr hyn y bydd ei angen ar deuluoedd pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r **grantiau arian parod** a ddarperir gan **Achub y Plant** yn galluogi Canolfannau Croeso i ymateb i anghenion penodol teuluoedd, eu helpu i gael teimlad o reolaeth sydd ei angen yn fawr wrth iddynt gyrraedd ac ymgartrefu yng Nghymru.

Gellir gwario'r grantiau ar eitemau sydd yn creu amgylchedd diogel sydd yn maethu ar gyfer teuluoedd sydd yn aros yn y Canolfannau Croeso, yn cynnwys dyfeisiadau cartref fel micro-donnau, oergelloedd a pheiriannau golchi llestri; dodrefn fel cotiau a soffas, carpedi ac offer coginio. Gellir defnyddio'r grantiau arian parod hefyd i ddarparu adnoddau chwarae a dysgu i deuluoedd, fel teganau, llyfrau a deunyddiau crefft a dyfeisiadau fel gliniaduron a llechi.

"Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i reoli Canolfan Croesawu, a darparodd grant Achub y Plant Cymru offer chwarae ychwanegol, teganau a dodrefn meddal i fannau cymunedol y teuluoedd, gan gynnwys y lolfa a'r ystafell chwarae. Roedd y cyllid hefyd yn darparu eitemau personol i deuluoedd, fel cewynnau, plant i ymolchi a chael bath yn ddiogel, a hanfodion hylendid hanfodol eraill. Roedd llawer o'r teuluoedd wedi bod yn teithio am gyfnodau hir gyda mynediad cyfyngedig at arian, ac roedd angen yr eitemau hyn yn syth ar ôl cyrraedd. Mae'r cyllid wedi ein galluogi i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda phlant a theuluoedd a gyrhaeddodd y fwrdeistref sirol, sydd wedi ein galluogi i fynd yr ail filltir i gefnogi teuluoedd mewn argyfwng."

– **Aelod o dîm cymorth Awdurdod Lleol**

DARPARU GRANTIAU'R BLYNYDDOEDD CYNNAR I DEULUOEDD O WCRÁIN

Pan darodd pandemig COVID-19, gwelsom deuluoedd yn cael anawsterau ac yn cael eu gwthio ymhellach i mewn i dlodi. Gweithiodd Achub y Plant gyda 94 o bartneriaid i gyflwyno **Grantiau'r Blynyddoedd Cynnar** i 5,500 o deuluoedd a 11,000 o blant ar draws y DU. Galluogodd y grantiau deuluoedd i gael hanfodion sylfaenol fel dyfeisiadau cartref a thalebau bwyd yn ogystal â theganau, llyfrau ac adnoddau dysgu.

Yn seiliedig ar ein profiadau a'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno'r grantiau hyn, mae ein partneriaid lleol yn barod i helpu teuluoedd sydd yn cyrraedd o Wcráin. Bydd teuluoedd wedi gorfod gadael popeth oedd ganddynt ar ôl; bydd ein Grantiau'r Blynyddoedd Cynnar yn **cynorthwyo anghenion uniongyrchol y teuluoedd.** Bydd y grantiau hyn ar gael i deuluoedd unigol, a byddant unwaith eto'n helpu i ddarparu eitemau cartref, talebau siopa, teganau a gweithgareddau addysgol i gefnogi addysg plant. Ar adegau o argyfwng a therfysg, gall addysg fod yn achubiaeth. Mae'n rhoi sefydlogrwydd, trefn a gobaith i blant am ddyfodol gwell.

**Enwau wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth*

Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)

Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd yma. Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

HYFFORDDIANT

Byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n profiad o weithio mewn cyd-destunau dyngarol yn Affrica, Asia, Ewrop a'r DU i helpu gweithwyr a gwirfoddolwyr rheng flaen i ddeall **anghenion a diwylliant plant a theuluoedd sydd yn ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches.** Mae'r sesiynau ar-lein hefyd yn gyfle i staff a gwirfoddolwyr ofyn cwestiynau a thrafod materion y gallent fod yn eu hwynebu.

PECYNNAU CROESO

Mae llawer o deuluoedd wedi gorfod gadael popeth ar ôl wrth iddynt adael Wcráin. Mae pecyn croeso wedi cael ei greu ar gyfer teuluoedd o Wcráin sydd yn cyrraedd Cymru i'w helpu i addasu ac ymgartrefu. Mae'r pecyn yn cynnwys **gwybodaeth a chyngor** ar gael mynediad at wasanaethau lleol, fel gofal iechyd yn ogystal â theganau, gweithgareddau addysgol i gynorthwyo addysg plant, a grantiau er mwyn i deuluoedd allu fforddio'r hanfodion. Bydd y pecyn hwn **ar gael yn Saesneg, Wcreineg a Rwsieg.** Bydd partneriaid lleol yn dosbarthu'r rhain i deuluoedd ffoaduriaid. Yn yr wythnosau a'r misoedd ar ôl iddynt gyrraedd, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid lleol i gefnogi plant a theuluoedd wrth i ni weld eu hanghenion yn newid.

PROSIECT CYFRANOGIAD O BLENTYN I BLENTYN

Wrth i blant o Wcráin gyrraedd cartrefi ar draws Cymru, mae angen gwneud paratoadau i'w helpu i ymgartrefu mewn ysgolion a chymunedau newydd. Mae'r prosiect **cyfranogiad o blentyn i blentyn** yn **gweithio gyda phlant ysgol lleol** ar draws De Cymru i ddatblygu cyfleoedd i blant arwain gweithgareddau i groesawu teuluoedd ffoaduriaid o Wcráin a gwledydd eraill, sydd yn cyrraedd eu cymunedau. Trwy'r prosiect bydd plant yn cymryd rhan weithredol yn eu cymunedau, yn datrys problemau ac yn creu newidiadau fydd yn gwella bywydau, diogelwch a llesiant pob plentyn yn eu hardal.

Mae plant yng Nghymru ac ar draws y byd wedi defnyddio eu lleisiau a'u gweithredoedd i siarad dros blant yn Wcráin, gan ddod yn asiantau newid. Nod y prosiect yw **grymuso plant** i rannu eu realaeth, eu geiriau a'u ffotograffau fel bod gwneuthurwyr penderfyniadau yn gwrando ar leisiau plant ac yn gweithredu **newidiadau cadarnhaol yn eu cymunedau.** Bydd negeuseon o blentyn i blentyn gan ddisgyblion yn yr ysgolion yn cael eu rhannu gyda phlant yn Wcráin a'r gwledydd cyfagos o amgylch Gwlad Pwyl gyda'r nod o helpu plant i **deimlo cysylltiad** â'r undod a'r gefnogaeth sydd ganddynt gan blant ar draws y byd.

I ganfod mwy am y gwaith yr ydym yn ei wneud yng Nghymru:
Cysylltwch â walesinfo@savethechildren.org.uk
Dilynwch ni ar Facebook @savechildrenwales a Twitter @savechildrencym
www.savethechildren.org.uk

**Enwau wedi'u newid i ddiogelu hunaniaeth*

savethechildren.org.uk
Rhif Elusen Gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570) ac Ynys Manaw (199)
Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd yma. Cymerwch amser i ddarllen trwy'r manylion ynghylch sut rydym yn casglu, defnyddio ac yn diogelu eich gwybodaeth. Cysylltwch â mi unrhyw bryd os hoffech newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â chi neu os hoffech roi'r gorau i glywed oddi wrthym yn gyfan gwbl.
Registered with FUNDRAISING REGULATOR